# Astudiaeth Achos Rhwydwaith

# Treftadaeth a Diwylliant Aberhonddu

## 1. Cyflwyniad

Yn wreiddiol, cafwyd cydnabyddiaeth fod cryfder y cynnig treftadaeth, diwylliant a chelfyddydau yn Aberhonddu yn ddarneidiog ac wedi'i gyfyngu gan ddiffyg gallu a chapasiti marchnata a dull oedd heb ei gydlynu. Roedd hyn yn cyflwyno cyfle ar gyfer atyniadau treftadaeth, celfyddydol a diwylliannol Aberhonddu i gydweithio i godi ei broffil ac atgyfnerthu synnwyr Aberhonddu o hunaniaeth ac amlygrwydd trwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

Roedd datblygiad Rhwydwaith, dan arweiniad Grŵp Llywio, wedi annog y rheini oedd â diddordeb mewn treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau i gymryd rhan a chydweithio. Cafodd pawb eu hannog i gyfrannu eu hamser/cefnogaeth mewn nwyddau, gan rannu a chefnogi ei gilydd i wneud cynnydd gyda'r prosiect.

### Nodau'r Prosiect

- Creu Rhwydwaith newydd i alluogi'r partneriaid i gydweithio i gyflawni dull cysylltiedig i gyflwyno gweithgaredd marchnata newydd o'r gwaelod i fyny
- Galluogi ymgysylltu gyda staff partneriaid, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol, i gyflwyno hyfforddiant ar weithredu'r prosiect
- Creu cynnwys marchnata dynamig gan gynnwys data, delweddau a fideo
- Ymchwilio a datblygu ateb dyfeisgar a chynaliadwy i sicrhau fod cynnwys o fewn cyrraedd i'w ddefnyddio gan bartneriaid, busnesau a sefydliadau marchnata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Galluogi ymgyrchoedd marchnata digidol dyfeisgar: gan gynnwys pecynnu profiadau diwylliannol unigryw a chyflwyno cyfryngau cymdeithasol cydweithredol trwy ddod â sefydliadau cymunedol ynghyd o fewn y sector treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth i gyflwyno'r gwasanaeth

## 2. Yr Heriau

Yn y gorffennol, mae darparwyr treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau yn Aberhonddu wedi gweithio'n annibynnol gan fwyaf gyda'r canfyddiad fod llawer o safleoedd treftadaeth a diwylliannol cyfoethog a bywiog y dref yn asedau cudd.

- Y brif her oedd dod â'r darparwyr treftadaeth, diwylliant a chelfyddydau ynghyd i weithio'n gydweithredol a datblygu rhannu diwylliant er budd busnesau a sefydliadau annibynnol ond hefyd er budd y dref.
- Ni ddefnyddiwyd asedau datgelu asedau cudd Aberhonddu trwy ddulliau digidol megis adrodd storïau a'r defnydd o ddelweddau da a fideo yn weithgar gan nifer o ddarparwyr, eu staff na gwirfoddolwyr.
- Recriwtio tîm o wirfoddolwyr a allai helpu i ddatblygu'r Rhwydwaith a'i allbynnau digidol

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Roedd cyflwyno'r prosiect a diwallu targedau yn arbennig o anodd gyda dechrau'r pandemig rhyngwladol a'r cyfnod clo.
- Mae'r pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo yng nghanol mis Mawrth 2020 wedi cael effaith ddifrifol am bob busnes, sefydliad a phreswylydd yn Aberhonddu, ochr yn ochr â phob cymuned ar draws y DU. Y sectorau diwylliant, twristiaeth a lletygarwch oedd y cyntaf i gael eu heffeithio ac mewn ffordd gref a llym.
- Roedd y cyfnod hwn wedi cydfynd â dechrau cam cyflwyno'r prosiect. Mae'r pandemig wedi cael effaith arwyddocaol a sylweddol ar gam cyflwyno'r prosiect. Roedd y pandemig yn ergyd i'r broses o ymgysylltu gyda'r gymuned.

## 3. Yr Atebion

i) Dod â darparwyr treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau yn Aberhonddu ynghyd ac arddangos buddion gweithio ar y cyd. Roedd y nawdd wedi caniatáu i'r prosiect ddatblygu'r canlynol;

Roedd Grŵp Llywio o randdeiliaid yn arwain y prosiect gan roi o'u hamser eu hunain/cefnogaeth mewn nwyddau. Yn ychwanegol at hyn, cafodd gweithgorau eu creu i ddarparu profiad ac arbenigedd i rai agweddau ar y prosiect.

ii) Annog darparwyr treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau i gofleidio cyfathrebu digidol, gweld y buddion, rhannu gwybodaeth a chymorth i hyrwyddo'r cyrchfan. Roedd y nawdd wedi caniatáu i'r prosiect ddatblygu'r canlynol;

- Datgelu asedau cudd Aberhonddu trwy adrodd straeon fel dull a brofwyd o gyfathrebu'n ddigidol i gynulleidfaoedd
- Cynhaliwyd proses frandio gan gynnwys rhanddeiliaid ac unigolion sydd â diddordeb mewn treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau yn Aberhonddu. Yr allbwn oedd cyfeirio Stori Aberhonddu newydd sbon.
- Cafodd llwyfan digidol cwbl ddwyieithog ei greu gan gynnwys porth a sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Roedd defnydd creadigol o ddelweddau, negeseuon a chynnwys rhyngweithiol wedi helpu i greu brwdfrydedd ymysg cynulleidfaoedd.
- Rhoddwyd hyfforddiant am ddim i'r rheini oedd â diddordeb mewn cyfrannu tuag at y prosiect o ran adrodd storïau, gwella ffotograffiaeth gan ddefnyddio ffôn symudol a chyfryngau cymdeithasol.

iii) Roedd pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi cydfynd gyda cham cyflwyno'r prosiect ac wedi effeithio ar ymgysylltu ar nifer o lefelau. Yn ffodus, roedd cam cyntaf y porth wedi cael ei gwblhau erbyn dechrau'r cyfnod clo yng nghanol mis Mawrth ac roedd yn cynnwys ambell enghraifft o storïau a fideo. Cafodd cynllun y prosiect ei ddiwygio a chymerwyd y camau gweithredu canlynol;

- Roedd tîm y prosiect wedi parhau i weithio o gartref a chyfathrebu ar-lein gan gynnwys sefydlu gweithdai a chyfarfodydd ar-lein lle'r oedd hynny'n bosibl.
- Roedd y porth yn fyw ac yn parhau i gael ei ddatblygu gan ddefnyddio deunydd a recordiwyd.
- Rhaid oedd canslo neu ohirio rhai tasgau tan gam nesaf y prosiect. Fodd bynnag, cafodd rhai tasgau eu hailfodelu a'u cyflwyno erbyn canol Gorffennaf – Medi 2020
- Cafodd sianeli cyfryngau cymdeithasol eu lansio i annog ymgysylltu a chodi proffil. Cafodd datganiadau i'r wasg leol eu dosbarthu pan oedd yr amser yn iawn.

## 4. Buddion i'r gymuned a busnesau

Mae'r nawdd wedi helpu i ddatblygu llwyfan digidol strategol er mwyn i'r gymuned allu ymgysylltu ag ef, cyfrannu tuag ato, dysgu ohono a'i rannu gydag eraill. Mae'r Rhwydwaith yn helpu i godi proffil y dref ac annog ymwelwyr dydd lleol i Aberhonddu ac ymwelwyr sy'n aros. Mae rhai o'r buddion yn cynnwys;

- Datblygu balchder o fewn y gymuned am ei threftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau
- Arddangos buddion cydweithio a meithrin diwylliant o rannu i'r gymuned leol.
- Darparu llais ar gyfer treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau o fewn y gymuned leol a chyda sefydliadau lleol.
- Codi proffil positif y dref
- Cyflwyno ystod o atyniadau a digwyddiadau i bobl leol fel y gallant eu mwynhau.
- Gyrru mwy o ymweliadau a mynychwyr tuag at asedau lleol i wella pa mor weladwy ydynt.
- Arddangos i'r gymuned fod cyfathrebu digidol yn ffordd o gael mynediad at wybodaeth ac yn ffordd fodern o wneud busnes.

### 5. Canlyniadau

- Mae Rhwydwaith Treftadaeth a Diwylliant Aberhonddu wedi cael ei sefydlu ac mae aelodau'n awyddus i symud ymlaen gyda'r Rhwydwaith trwy gyfraniad gwirfoddol ac ariannol.
- Mae cyfeiriad brand wedi cael ei sefydlu o'r enw Stori Aberhonddu (Brecon Story).
- Mae llwyfan digidol cwbl ddwyieithog wedi cael ei lansio sy'n rhyngweithiol ac yn cynnwys delweddau cyffrous
- Mae gwirfoddolwyr wedi dechrau dod ymlaen i gyfrannu tuag at y Rhwydwaith yn bennaf trwy rannu cyfryngau cymdeithasol
- Mae cynnwys Stori Aberhonddu yn cael ei rhannu gan y gymuned gyda chanlyniadau calonogol.

Mae nawdd Arwain wedi bod yn gatalydd i sefydlu Rhwydwaith Treftadaeth a Diwylliant Aberhonddu – rhwydwaith ddigidol. Mae'r gweithgor Etifeddiaeth wedi creu cynllun i symud ymlaen at y cam nesaf wedi i nawdd Arwain ddod i ben. Mae wedi canfod ffynonellau nawdd ar gyfer y cam nesaf a hyd yn hyn, mae dau gais llwyddiannus wedi bod ynghyd ag ymrwymiad ariannol gan ddau gyfrannwr.

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Deilliant (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | Ddim yn gymwys |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 1 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | Ddim yn gymwys |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/ a gefnogwyd | 1 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | 0 |

| | |
|---|---|
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 19 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 53 |
| Deilliannau | |
| Nifer y swyddi a grewyd | 1 (2 rhan amser) |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 7 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 10 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Gweinyddiaeth bhcn@gmail.com

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol

Roedd y Rhwydwaith newydd wedi dod ag atyniadau a gweithgareddau treftadaeth a diwylliant Aberhonddu, sefydliadau cymunedol, Cyngor Tref Aberhonddu/Croeso Aberhonddu, Uned Dwristiaeth Bannau Brycheiniog ac Uned Dwristiaeth Cyngor Sir Powys ynghyd. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys y gymuned dwristiaeth a busnes ehangach

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Rhwydwaith Treftadaeth, Diwylliant a Chelfyddydau Aberhonddu Brecon Heritage, Cultural and Arts Network |
| Dyddiad Dechrau: | 15/10/2018 |
| Dyddiad Diwedd: | 30/09/2020 |
| Thema LEADER: | Thema 5: Manteisio ar Dechnoleg Ddigidol Exploitation of Digital Technology |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £124,291.17 |
| Nawdd y Gronfa Datblygu Gwledig: | £93,800.40 |
| Nawdd Cyfatebol: | £30,490.77 |

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government